

Meithrin democratiaeth leol gryfach trwy sgrwtini effeithiol gan Aelodau



MYNEGAI

Tudalen

- | | |
|------------------------------------------------------------|---|
| 1. Y cyd-destun | 3 |
| 2. Beth ydym eisiau ei gyflawni? | 4 |
| 3. Ein profiadau blaenorol | 4 |
| 4. Ble awn ni nesaf? | 5 |
| 5. Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth? | 7 |

ATODIADAU

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – 7 Nod Llesiant Cenedlaethol	Atodiad 1
Gwerthusiad o gynllun peilot gwerthuso ymgysylltiad pobl ifanc â Sgriwtini	Atodiad 2
Camau gweithredu ar gyfer 2017/18	Atodiad 3

Papurau Cyfeirio a Chefndir

Sgriwtini Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth Wella gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru: Sgriwtini mewn Llywodraeth Leol [29 Mai 2014]

Gwerthusiad o gynllun peilot gwerthuso ymgysylltiad pobl ifanc â Sgriwtini [Mawrth 2017]

1. Y Cyd-destun

Mae sgrwtini effeithiol gan aelodau lleol yn flaenoriaeth genedlaethol gan Lywodraeth Cymru:

“Mae sgrwtini effeithiol yn hanfodol ar gyfer sicrhau gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n cwrdd ag anghenion y cyhoedd a sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud y defnydd gorau o'u harian”.

[Gweinidog Llywodraeth Leol, Lesley Griffiths, Tachwedd 2013]

Rydym eisiau creu'r sylfeini a'r amodau i ddemocratiaeth leol ffynnu a datblygu. Mae hyn yn golygu cychwyn efo'n dinasyddion ac edrych yn benodol ar sgrwtini gan Aelodau Etholedig¹.

Y unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol², mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi adnabod yr angen i gynnwys pobl leol yn y broses Sgrwtini ac mae wedi dechrau datblygu'r broses hon. Fel cynllun peilot, rydym wedi defnyddio proses gosod y gyllideb ar gyfer 2017/18 i archwilio sut gallai hyn ddigwydd yn ymarferol. Yn **ATODIAD 1**, rydym yn trafod y Nodau Llesiant Cenedlaethol.

Os ydym o ddifri am annog sgrwtini effeithiol, rydym yn cydnabod y dylai'r wybodaeth rydym yn ei chynhyrchu ar gyfer y cyhoedd fod yn glir, yn ddealladwy ac yn berthnasol. Mae angen i ni hefyd sicrhau bod gwell dealltwriaeth o rôl Aelodau Sgrwtini a beth yw diben Sgrwtini, ei rôl a'i bwrpas.

Ni all hyn ddigwydd dim ond:

- Os ydym yn glir ynghylch y weledigaeth a'r blaenoriaethau ar gyfer Sgrwtini a dylai'r rhain gael eu datblygu trwy ymgysylltu'n barhaus gyda'n pobl leol a chymunedau
- Os ydym yn agored ac yn dryloyw a bod gennym y prosesau llywodraethu ac atebolrwydd cywir yn eu lle
- Os ydym yn cefnogi ein haelodau etholedig i arwain y sgwrs gyda'u cymunedau er mwyn datblygu, perchnogi a symud blaenoriaethau yn eu blaen trwy'r Cyngor
- Os oes gennym raglenni monitro a gwerthuso clir yn eu lle i'n galluogi i ddysgu a gwella yn barhaus.

¹ Nid yw Aelodau Etholedig sydd ar y Pwyllgorau Sgrwtini yn eistedd ar y Pwyllgor Gwaith ond mae ganddynt rôl bwysig o ran dal y sawl sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif. Maent yn grŵp o Gynghorwyr sy'n edrych yn wrthrychol ac yn fanwl ar faterion sy'n bwysig i'r Cyngor, gan wneud yn siŵr fod penderfyniadau'n cael eu gwneud i'n helpu i gwrdd â'n amcanion a'n blaenoriaethau ar gyfer pobl Ynys Môn

² Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

2. Beth ydym eisiau ei gyflawni?

Mae'r canlyniadau a fyddai'n deillio o well ymgysylltiad trwy sgrwtini wedi eu diffinio'n genedlaethol³ fel a ganlyn:

1. Atebolrwydd democrataidd yn gyrru gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus [**deilliannau gwell**]
2. Y broses gwneud penderfyniadau democrataidd yn atebol, yn gynhwysol ac yn gadarn [**penderfyniadau gwell**]
3. Y cyhoedd yn rhan o drafodaethau democrataidd ynghylch y modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus nawr ac yn y dyfodol [**ymgysylltu gwell**]

Pan fo'r tri pheth uchod mewn lle, mae Sgrwtini yn fodd i glywed "llais" y bobl leol a chymunedau trwy'r Ynys fel rhan o'r prosesau gwneud penderfyniadau a pholisïau.

I sicrhau ein bod yn cynnwys grwpiau amrywiol ac ymylol, byddwn yn parhau i adeiladu ar berthnasau gyda'r Trydydd Sector er mwyn ymgysylltu gyda'r grwpiau anodd eu cyrraedd⁴. Byddwn yn defnyddio arfer orau cenedlaethol⁵ i'n tywys.

Fel Cyngor Sir Ynys Môn, rydym eisiau sicrhau bod pobl leol mewn sefyllfa gryf i gyfrannu at, ac elwa o gymryd rhan mewn penderfyniadau lleol. Wrth fynd ymlaen, dymunwn hefyd herio ffyrdd hanesyddol o feddwl a gweithio, ac arbrofi gyda modelau newydd sy'n sicrhau llais cryf i bobl leol. Wrth wneud hyn, dymunwn hefyd herio cymunedau i gymryd cyfrifoldeb ar y cyd am ddatblygu gwasanaethau maent yn eu defnyddio ac i feddwl am sut y gallant ddod yn fwy gwydn⁶.

3. Ein profiadau blaenorol

Mewn partneriaeth â Llais Ni⁷, fe wnaeth gwasanaeth Sgrwtini Cyngor Môn gynnal cynllun peilot y llynedd i sefydlu ffordd o weithio sy'n gadael i bobl ifanc roi mewnbyn ac sy'n ychwanegu gwerth at ein model Sgrwtini. Roedd y cynllun peilot yn edrych yn benodol ar broses gosod cyllideb y Cyngor ar gyfer 2017/18 ac yn profi sut i gynnwys pobl ifanc yn well mewn prosesau democrataidd. Roedd hefyd yn edrych ar sut i ddatblygu dealltwriaeth pobl ifanc am y broses o symud themâu o'r cam ymgynghori i'r cam sgrwtini gan Aelodau. Cafodd y model hwn ei amlygu'n genedlaethol yn ddiweddar fel model o arfer dda⁸ ac fe'i rhannwyd gyda Llywodraeth Cymru⁹.

³ Sgrwtini da? Cwestiwn da! Astudiaeth Wella gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru: Sgrwtini mewn Llywodraeth Leol (29 Mai, 2014)

⁴ Trwy weithio efo'r Prosiect Lleisiau Lleol ym Medrwn Môn, bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn sicrhau ei fod yn cynnwys cynrychiolaeth o'r grwpiau anoddaf i'w cyrraedd. Portffolio o asiantiaethau trydydd sector ydy prosiect Lleisiau Lleol, sy'n annog pobl o grwpiau ymylol i ymgysylltu gyda gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r grwpiau rheiny'n cynnwys cymunedau digartref, cymunedau â nodweddion gwarchoddedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, cymunedau'r byddar, pobl ag anableddau dysgu, pobl hŷn a phobl ifanc

⁵ Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu Cyhoeddus yng Nghymru (Participation Cymru)

⁶ Sicrhau cyswllt i Gynllun Cyngor Sir Ynys Môn 2017/2022

⁷ Cyngor ieuentid i Ynys Môn

⁸ Cefnogaeth Y Ganolfan Sgrwtini Cyhoeddus

⁹ Adran Teuluoedd, Cymunedau a Threchu Tlodi (Llywodraeth Cymru)

“Ar y cyfan roedd yn brofiad amhrisiadwy ac roedd yn ddefnyddiol gweld sut mae'r Cyngor wedi ei strwythuro a sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneudCefais lawer mwy o wybodaeth a dealltwriaeth am y toriadau i'r gyllideb a lle'n union maent yn bwriadu gwneud toriadau, llawer mwy o wybodaeth nag oedd gennyf cynt.....Teimplais y tro hwn fod y Cyngor wedi gwrando ar fy marn ac wedi ei werthfawrogi go iawn” Aelod Llais Ni.

Rydym nawr yn awyddus i archwilio sut gallwn ddatblygu'r model hwn ymhellach, gan adeiladu ar ein pedwar argymhelliad allweddol ar ôl gwerthuso'r peilot. Dyma'r argymhellion:

- A1 Llywodraethu da** – gan alluogi cael eglurder ynghylch rolau, cyfrifoldebau, sgiliau a disgwyliadau
- A2 Amser ac adnodd** – mae angen canllawiau clir am yr amser a'r adnoddau sydd ar gael i'r gwaith
- A3 Sefydlu rhaglenni gwaith creadigol** – darparu proses sgrwtini sy'n ymgysylltu ac yn greadigol
- A4 Cau'r cylch** – ymgorffori prosesau adborth a gwerthuso effeithio

[Mae **ATODIAD 2** yn cynnwys manylion am y gwerthusiad a wnaethom].

Roedd Llais Ni hefyd ynghlwm â'r broses Sgrwtini ar gyfer y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn Llangefni. Y tro hwn fe newidiodd eu rôl o fod yn rhan o'r broses fel ymgynghoreion i fod yn edrych go iawn ar sut mae'r broses o osod cyllideb yn symud i ddylunio ymgynghoriad, sut y cesglir gwybodaeth a sut caiff canlyniadau'r broses gwneud penderfyniadau ei chyfleu yn ôl i'r gymuned ehangach. Roedd hyn yn caniatáu i Gyngor Sir Ynys Môn ddangos i'r Bobl Ifanc yn union sut mae'r broses gwneud penderfyniadau yn digwydd. Roedd hefyd yn caniatáu i'r bobl ifanc eu hunain chwarae mwy o ran yn y broses yn hytrach na dim ond cymryd rhan yn yr ymgynghoriad, ac yn eu hannog i feddwl am effeithiau a manteision y penderfyniadau a wneir ar eu cymunedau ehangach.

Wrth fynd ymlaen, byddwn yn defnyddio'r Panel Dinasyddion¹⁰ a'r Cyngor Ieuenctid¹¹ fel y cyfryngau ar gyfer sicrhau barn mwy gynrychioladol o'r boblogaeth.

4. Ble awn ni nesaf?

Rydym wedi cydnabod y pwysigrwydd o adeiladu ar yr argymhellion o'n cynllun peilot a byddwn nawr yn gweithio tuag at y meysydd canlynol er mwyn cryfhau ein ymgysylltiad â phobl Ynys Môn ymhellach:

- Sefydlu strwythur a llywodraethiant da
- Gwneud yn siŵr ein bod yn ymwybodol o'r blaen raglenni gwaith Sgrwtini


¹⁰ Mae'r Panel Dinasyddion yn grŵp o bobl leol sy'n cael y cyfle i ddweud eu dweud yn rheolaidd ar faterion lleol a helpu'r Cyngor i gynllunio, darparu ac adolygu ein gwasanaethau lleol. Gall hyn ddigwydd ar-lein, mewn grwpiau ffocws, digwyddiadau neu drwy ymgynghoriad ffurfiol.

¹¹ Mae Cyngor Ieuenctid Llais Ni yn grŵp o bobl ifanc sy'n cael y cyfle i ddweud eu dweud yn rheolaidd ar faterion lleol a helpu'r Cyngor i gynllunio, darparu ac adolygu ein gwasanaethau lleol. Mae strwythur y Cyngor Ieuenctid yn union yr un fath â'r un ar gyfer y Panel Dinasyddion ac mae'n cynnwys pobl ifanc o 11 i 25 oed

- Cydnabod risgiau a chynnig camau lliniaru

Rydym hefyd yn cydnabod yr angen i gael ymagwedd hyblyg ac nad yw'r un ateb yn gwneud i bopeth. Mae angen felly i'n model Sgrwtini gynnwys gwahanol ddulliau ar gyfer gwahanol bynciau ac mae angen i Aelodau werthfawrogi a bod yn hyderus wrth ddefnyddio'r model cywir ar gyfer y pwnc cywir. Rydym wedi mabwysiadu arfer dda wrth ddechrau y model cywir i gyflawni deiliant trwy gyfrwng y 3 model ymgysylltu ac ymgynghori gan y Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y Cyd¹².


Rydym yn glir bod hyn yn ymwneud â chyflawni beth sydd wedi cael ei ddisgrifio'n genedlaethol fel deiliannau effeithiol i Sgrwtini. Dylai'r strwythur a roesom yn ei le ein galluogi a'n cefnogi i wneud gwahaniaeth gwirioneddol [dylai'r broses gyflawni'r nod]. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu:-



¹² Mae'r Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y Cyd yn strwythur a sefydlwyd rhwng Cyngor Ynys Môn a Medrwn Môn i sicrhau ein bod yn osgoi gor-ymgynghori â thrigolion; bod unrhyw ymgynghori ac ymgysylltu a wneir gan y Cyngor yn ystyrion, ac y rhoddir adborth priodol i'n cymunedau unwaith mae'r penderfyniadau wedi'u gwneud.

Ynghyd â'r llywodraethiant a'r strwythur ar gyfer gwaith Sgrwtini, rydym hefyd wedi adnabod yr angen i egluro lle mae Sgrwtini yn ffitio yn strwythur cyffredinol y Cyngor. Mae'r diagram a ganlyn yn egluro hyn:

SGRIWTINI YN STRWYTHUR GWNEUD PENDERFYNIADAU'R CYNGOR



5. Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth?

Byddwn yn rhoi cynllun gweithredu ar waith i fonitro cynnydd ond rydym yn cydnabod, er mwyn cael darlun o ansawdd y cynnydd tuag at well deilliannau ar gyfer Sgrwtini, y bydd angen i ni ganolbwyntio mwy ar werthuso. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ni edrych ar sut mae ein prosesau Sgrwtini wedi galluogi i leisiau pobl Ynys Môn gael eu clywed yn y materion sy'n bwysig.

Byddwn yn cyflawni hyn trwy sefydlu datganiad o ddisgwyliad rhwng Sgrwtini a'r Panel Dinasyddion neu'r Cyngor Ieuenctid. Dylai'r datganiad hwn ddisgrifio'r hyn y dylai pobl ei ddisgwyl o gydweithio a sut i fesur deilliannau y gwaith hwnnw. Caiff hwn ei adolygu ar

ddechrau pob pwnc i sicrhau ei fod yn adlewyrchu beth sydd angen i ni ei gyflawni. Ar ddiwedd pob pwnc, bydd Aelodau Etholedig a'r Panel Dinasyddion neu'r Cyngor Ieuenctid yn cael eu hannog i fyfyrion ar y gwersi a ddysgwyd o'r darn o waith. Bydd hyn yn cynnwys rhannu arfer orau ynghyd ag adnabod meysydd i'w gwella ymhellach.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - 7 Nod Llesiant Cenedlaethol


Y Ddyletswydd Llesiant

Diben y Ddeddf yw gwella'r modd y gallwn gyflawni ein llesiant **economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol**.

Mae gofyn i gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf¹³ wneud eu gweithgareddau mewn modd cynaliadwy. Mae'n rhoi cyfrifoldeb ar gyrff cyhoeddus i feddwl am y tymor hir, i weithio'n well gyda phobl a chymunedau, gan edrych i atal problemau a mynd i'r afael â materion gyda'n gilydd (cyfeirir at hyn fel y "**Ddyletswydd Llesiant**" yn y ddeddfwriaeth).

Nodau Llesiant

I sicrhau ein bod oll yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf wedi sefydlu **7 o nodau llesiant**:



Datblygu Cynaliadwy

Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu "**egwyddor datblygu cynaliadwy**" sy'n egluro sut y dylai sefydliadau fynd ati i gwrdd â'u dyletswydd o dan y Ddeddf. Golyga hyn y dylai sefydliadau ymddwyn mewn modd sy'n "**ceisio sicrhau ein bod yn cwrdd ag anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain**"¹⁴. Mae angen i gyrff cyhoeddus felly wneud yn siŵr, pan fyddant yn gwneud eu penderfyniadau, eu bod yn rhoi ystyriaeth i'r effaith y gallant ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol.

¹³ Awdurdodau Lleol, y Bwrdd Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, y Gwasanaeth Ambiwylans yn ogystal â'r Gwasanaeth Tân ac Achub, yr Heddlu a'r 3ydd Sector

¹⁴ Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Gwerthusiad: Cynllun Peilot Ymgysylltiad Pobl Ifanc â Sgrwtini

Mae Medrwn Môn wedi cwblhau gwerthusiad yn dilyn y ddau ddarn o waith ymgysylltu gan y Panel Dinasyddion a'r Cyngor Ieuencid (Llais Ni). Roedd y gwerthusiad yn cynnwys edrych ar sut y gallai'r canfyddiadau ddylanwadu ar waith ymgysylltu yn y dyfodol rhwng y Panel Dinasyddion (PD), y Cyngor Ieuencid (CI) a Sgrwtini. Nodwyd yr argymhellion a ganlyn:

1. **Llywodraethu Da** – Er mwyn i'r gwaith rhwng Cyngor Ynys Môn a'r Panel Dinasyddion/y Cyngor Ieuencid weithio'n effeithiol, mae angen i ni'n gyntaf sefydlu set o egwyddorion Llywodraethu Da. Bydd hyn yn fodd i gael eglurder ynghylch rolau, cyfrifoldebau, sgiliau a disgwyliadau gan yr holl bartion a bydd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglenni gwaith sy'n hawdd i'w rheoli.

Er nad oes un diffiniad cyffredin o 'lywodraethu da' y mae pawb yn gytûn arno, mae consensws i raddau helaeth ynghylch beth sy'n cyfrif fel 'da'. Mae'n dilyn felly y dylai systemau llywodraethu da bob tro gynnwys yr hanfodion, cwrdd â disgwyliadau dinasyddion a gweithio mewn cyd-destun.

a. Ymdrin â'r hanfodion -

1. Atebolrwydd	Y rheini sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau yn rhoi cyfrif cyhoeddus am yr hyn a wnaethant ac yn cael eu dal i gyfrif gan bobl annibynnol (nid rhai sy'n gwneud penderfyniadau) yn gyhoeddus.
2. Effaith	Gwneir gwahaniaeth amlwg i ddinasyddion trwy well polisiau a gwasanaethau.
3. Democratiaeth	Mae'r system yn darparu rhyw radd o reolaeth gan y bobl, sef y rheini sy'n cael eu heffeithio, ac yn sicrhau triniaeth deg i bawb.
4. Trafodaeth	Fe wneir penderfyniadau trwy ystyriaeth ofalus a thrwy edrych ar yr holl wybodaeth a thystiolaeth sydd eu hangen.
5. Ymgysylltu	Mae'r rheini a effeithir gan y penderfyniadau yn rhan o'r broses o wneud y penderfyniadau hynny.
6. Dirprwyo	Mae'r person neu'r corff priodol yn gwneud penderfyniadau ar lefel briodol.
7. Eglurder	Mae dealltwriaeth glir o bwrpas y trefniadau, prosesau a rolau gan bawb sydd ynghlwm ac maent wedi eu datgan yn ysgrifenedig.
8. Medrusrwydd	Mae gan bawb sydd ynghlwm â'r broses y sgiliau a'r profiad angenrheidiol neu mae ganddynt y cyfle a'r gefnogaeth i wneud hynny.
9. Capasiti	Mae digon o adnoddau (dynol a fel arall) i sicrhau bod y prosesau'n effeithiol ac y cânt eu cynnal.
10. Cyfreithlondeb	Mae prosesau'n cydymffurfio â chyfreithiau a rheolau perthnasol ac yn cwrdd â disgwyliadau yng nghanllawiau'r llywodraeth.
11. Gonestrwydd	Mae pawb sydd ynghlwm â'r broses yn ymddwyn yn fonesol ac yn onest, ac ymddiriedir ynddynt i wneud hynny.
12. Tryloywder	Mae popeth yn digwydd yn gyhoeddus oni bai bod rheswm diwylliannol neu gyfreithiol iddynt beidio.

13. Integreiddiad	Fe wneir cysylltiadau clir gyda systemau llywodraethu eraill o fewn y sefydliad h.y. llywodraethiant corfforaethol, llywodraethiant adrannol ac ati.
14. Annibyniaeth	Mae'r trefniadau'n gweithio er budd y rheini a effeithir, ac yn rhydd o ddiddordebau allanol gwleidyddol neu economaidd.
15. Addasrwydd	Mae prosesau rheolaidd o hunanwerthuso a gwerthuso allanol yn sicrhau ymateb i heriau allanol ac yn arwain at welliannau i brosesau.

- b. Cwrdd â Disgwyliadau Dinasyddion – Gan fod systemau llywodraethu da yn cael eu rhoi mewn lle er budd y dinasyddion sydd ynghlwm, dydi hi ond yn iawn eu bod yn cael dweud eu dweud ynghylch beth yw llywodraethu 'da'. Dylai hyn yn naturiol siapio disgwyliadau ynghylch beth mae'r system yn ei wneud. Mae angen i lywodraethu da fod yn benodol i'r rhan-ddeiliaid dan sylw – dylai ddwyn ynghyd y gwahanol fecanweithiau a strwythurau sgrwtini fel y gall pawb sydd ynghlwm fesur pa mor effeithiol mae'n cwrdd â'u disgwyliadau. Mae hyn yn golygu mesur a gwerthuso sut mae'r system sgrwtini yn gweithio o safbwynt ansoddol.
- Ein argymhelliad felly yw y dylid cyd-gynhyrchu Datganiad o Ddisgwyliadau rhwng y Panel Dinasyddion (PD) a Sgrwtini, a'r Cyngor Ieuenctid (CI) a Sgrwtini i wneud yn siŵr bod y disgwyliadau hyn yn cael eu diffinio'n glir. Ni ddylai'r datganiad fod ar ffurf dogfen cylch gorchwyl neu ymgynghoriad, yn hytrach dylai ddisgrifio beth mae pobl yn ei ddisgwyl o'r cydweithio a sut i fesur deilliannau'r gwaith hwnnw.
- c. Gweithio mewn Cyd-destun – Mae cyd-destun yn hanfodol i lwyddiant cydweithio gyda dinasyddion a phrosesau sgrwtini.
- Dylai'r cydweithio rhwng y PD, y CI a Sgrwtini ganiatáu i ni ystyried y medrau, y sgiliau a phrofiad y bobl sydd ynghlwm; yr adnoddau sydd ar gael i'r gwaith y mae angen ei wneud; a'r amodau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol ehangach.
- Byddem yn argymhell bod angen i unrhyw waith gyda'r PD, y CI a Sgrwtini felly roi ystyriaeth i p'un a yw'r cydweithio yn gymesur o gofio nifer y dinasyddion, maint y gwasanaeth dan sylw ac ati, a p'un a yw'r prosesau a ddefnyddir yn ddiwylliannol sensitif trwy edrych ar waith blaenorol a wnaed wrth ymgysylltu â chymunedau gwledig, a grwpiau anodd eu cyrraedd a rhai sy'n cael eu tangynrychioli.
2. **Amser ac Adnodd** – trwy edrych ar brofiadau blaenorol o gynnwys dinasyddion mewn prosesau gwneud penderfyniadau am wasanaethau cyhoeddus, mae angen canllawiau clir ynghylch yr amser a'r adnoddau sydd ar gael i'r gwaith. Mae angen i feysydd pwnc/cylch gwaith, amserlenni, a chefnogaeth ac arbenigedd staff fod yn glir o'r cychwyn a sicrhau bod dealltwriaeth ohonynt o'r cychwyn, a dylent adlewyrchu'r disgwyliadau y cytunwyd arnynt (fel y nodir uchod).
- Er mwyn cadw dinasyddion yn wirioneddol gysylltiedig â'r rhaglen sgrwtini mae angen rhyw elfen o gynllunio ymlaen llaw, gyda rhybudd y gallai rhai materion symud yn uwch ar yr agenda wrth i flaenoriaethau newid. Fodd bynnag, bydd gormod o newid a diffyg sefydlogrwydd yn arwain at ddiffyg ymgysylltiad ac at golli aelodau profiadol a medrus o'r PD a'r CI yn cymryd rhan.
3. **Sefydlu rhaglenni gwaith creadigol** – er mwyn bod yn effeithiol wrth gyflawni ei nodau ac ymgysylltu â dinasyddion yn y tymor hir, dylai'r broses sgrwtini fod yn

atyniadol ac yn greadigol. Byddai hyn yn sicrhau'r effaith eithaf ac ymatebion ansoddol gan ddinasyddion a'r cymunedau y byddent yn eu cynrychioli. Dylai gwybodaeth fod ar gael mewn amryw o ffurfiau a dylid rhoi ystyriaeth i'r math o grŵp rydym yn ymgysylltu â hwy, er enghraifft, mae'n well gan y CI sesiynau rhyngweithiol i gyflwyno'r wybodaeth y mae gofyn iddynt ei hystyried (h.y. Fideo Cyllideb 2017-18), ac mae'n well ganddynt ymgysylltu wyneb yn wyneb. Mae aelodau'r PD yn fwy annibynnol ac mae'n well ganddynt wybodaeth mewn fformat ysgrifenedig clir ac agored cyn ymgysylltu mewn fforymau neu gyfarfodydd.

4. **Cau'r cylch** – Mae'n hanfodol fod pob darn o waith a wneir gyda'r PD a'r CI yn arwain at sesiwn adborth a gwerthuso. Mae'n rhaid i ddinasyddion gael y cyfle i eistedd gyda Swyddogion Sgriwtini neu weithiwr allanol o'r trydydd sector i edrych ar sut aeth y broses ac i dderbyn adborth am sut y defnyddiwyd eu hadborth i gyfrannu at y penderfyniadau a wnaed. Mae hyn yn rhoi cyfle i adnabod ac argymhell arfer orau, ynghyd â thrafod gwersi a ddysgwyd a gosod blaenoriaethau am y dyfodol.

CAMAU GWEITHREDU AR GYFER 2017/18

Pwynt Gweithredu	Canlyniad Disgwyliedig	Pwy i weithredu	Blaenoriaeth	Statws CAMG
Gwella ymgysylltiad â'r cyhoedd yn ein gwaith Craffu				
<p>Ymgysylltiad Dinasyddion â Sgrwtini – datblygu datganiad polisi fel sylfaen er mwyn datblygu ymhellach ein hymgysylltiad â dinasyddion drwy Sgrwtini Aelodau.</p> <p>Mewn partneriaeth â'r 3ydd Sector, sefydlu trefniadau er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i ymgysylltiad cyhoeddus o fewn Sgrwtini a hyrwyddo hynny.</p>	<p>Llywodraethiant a strwythur da, yn cynnwys trefniadau Sgrwtini clir.</p> <p>Sylfaen gref er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer dinasyddion a safon uwch o ymgysylltiad democrataidd.</p> <p>Galluogi i leisiau pobl a chymunedau lleol ar draws yr Ynys gael eu clywed fel rhan o'r prosesau gwneud penderfyniadau / polisïau.</p>	<p>Rheolwr Sgrwtini / Medrwn Môn</p> <p>Medrwn Môn</p>	<p>Awst, 2017</p> <p>Hydref, 2017 (cynnig cyntaf i wahodd diddordeb drwy'r cyfryngau cymdeithasol)</p>	
<p>Datganiad o ddisgwyliad – Panel Dinasyddion a Chyngor Ieuencid</p> <p>i. datblygu datganiad o ddisgwyliad rhwng Sgrwtini a'r Panel Dinasyddion a'r Cyngor Ieuencid i gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> · disgrifiad o'r hyn y dylem ei ddisgwyl o gydweithio [disgwyliadau clir] · sut y byddwn yn mesur canlyniad ac effaith y gwaith [canolbwyntio ar ddeilliannau / effaith] · cyfeiriad at gydraddoldebau / effeithiau iaith fel rhan annatod o'r datganiad. <p>ii. adolygu'r datganiad o ddisgwyliad ar ddechrau bob pwnc er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu beth sydd angen ei gyflawni.</p> <p>iii. adlewyrchu ar y gwersi a ddysgwyd ar ddiwedd pob pwnc.</p>	<p>Llywodraethiant a strwythur da, yn cynnwys trefniadau sgrwtini clir.</p> <p>Gwerth ychwanegol a deilliannau gwell ar gyfer Sgrwtini [A3]</p> <p>Sylfaen gref er mwyn gwella deilliannau i ddinasyddion, gwell penderfyniadau a mwy o ymgysylltiad democrataidd.</p>	<p>Medrwn Môn</p>	<p>Hydref, 2017</p> <p>Hydref 2017 ymlaen</p>	<p>Datganiad drafft o ddisgwyliadau allan i ymgynghoriad (Hydref, 2017)</p>

Pwynt Gweithredu	Canlyniad Disgwyliedig	Pwy i weithredu	Blaenoriaeth	Statws CAMG
<p>Llais Plant a Phobl Ifanc [Llais Ni] Llais Dinasyddion [Panel Dinasyddion] Gwerthuso effeithlonrwydd trefniadau craffu'r gyllideb ar gyfer 2018/19 drwy gynnwys llais plant a phobl ifanc (Llais Ni) ac oedolion (Panel Dinasyddion). Cynnwys adborth uniongyrchol gan ddinasyddion i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (Chwefror 2018) (fel atodiadau i'r papurau pwyllgor). Hyn i'w ddarparu drwy 3 sesiwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sesiwn 1 (31/10/17) – cyflwyniad cyffredinol i'r Cyngor / gwneud penderfyniadau / Sgriwtini / pwy 'di pwy / arsylwi cyfarfod o'r pwyllgor sgriwtini. Sesiwn 2 (I'w gadarnhau – ar ôl 06/11/17) – gwerthuso'r cynigion cyllideb cychwynnol Sesiwn 3 (05/02/18) – adborth gan ddinasyddion i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 	<p>Sylfaen gref er mwyn gwella deilliannau ar gyfer dinasyddion, gwell penderfyniadau ac ansawdd gwell o ymgysylltiad democrataidd.</p> <p>Gwell ymgysylltiad cyhoeddus.</p> <p>Galluogi lleisiau pobl i gael eu clywed mewn materion sy'n bwysig.</p> <p>Llywodraethiant a threfniadau atebolrwydd sy'n cefnogi penderfyniadau cadarn ac effeithiol. [A3, A6]</p>	<p>Medrwn Môn i gynnig opsiynau.</p> <p>Rheolwr Sgriwtini</p> <p>Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus</p>	<p>Hydref, 2017 → Chwefror, 2018</p> <p>Dechrau Hydref, 2017</p>	

ALLWEDD i'r statws CAMG

STATWS CAMG			
Hwyr	Ar ei hôl hi	Yn unol a'r Cynllun	Wedi'u Cwblhau
C	A	M	G